



# Dyfodol Gwneud Lles yng Nghymru

Sgyrsiau am greu gwerth cymdeithasol



[View pages in English](#)



CRONFA  
LOTERI  
FAWR  
BIG  
LOTTERY  
FUND

ARIENNIR GAN Y  
LOTERI GENEDLAETHOL  
NATIONAL  
LOTTERY FUNDED

SEFYDLIAD  
**bevan**  
FOUNDATION

# Cynnwys

1. Cyflwyniad .....	2
2. Beth yw ‘gwneud lles’? .....	3
3. Sut i greu lles .....	8
4. Nawdd .....	13
5. Myfyrdodau ac awgrymiadau .....	16

# 1. Cyflwyniad

Mae Cymru ar groesffordd. Mae nifer o bobl a sefydliadau yn wynebu sialensiau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol gwirioneddol, ynghyd â gorfol ymdopi gydag ansicrwydd gwleidyddol ac ariannol arwyddocaol. Mae'r materion hyn yn cael effaith drawiadol ar sut mae sefydliadau o bob math yn gwella bywydau pobl neu'n creu gwerth cymdeithasol. Tra bod rhai yn mwynhau'r cyfleoedd ac yn ffynnu, mae eraill yn gweld yr addasu yn anoddach.

Nid yw Cymru ar ei phen ei hunan yn wynebu'r materion hyn – ar draws y DU, mae pobl a sefydliadau yn ailystyried ac yn ailddiffinio eu rolau. I symbylu trafodaeth am y newidiadau hyn, mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi comisiynu Sonia Sodha i ymchwilio ac ysgrifennu am 'Ddyfodol Gwneud Lles'. Mae'n dod â rhai materion pwysig iawn ynghyd nad ydynt yn cael eu trafod yn rhy aml, megis sut mae sefydliadau yn creu gwerth cymdeithasol, y berthynas rhwng y trydydd sector a'r sectorau preifat a chyhoeddus, a sut y gallai sefydliadau o bob math wneud yn well.

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn awyddus i weld y materion hyn yn cael eu gwyntyllu a'u trafod yng Nghymru. Gan weithio gyda Sefydliad Bevan, fe drefnodd ddigwyddiad gyda phresenoldeb da yn y Senedd, gan gynnal dwy drafodaeth o amgylch y bwrdd gyda mwy na 20 o sefydliadau'r trydydd sector, a chreu ymatebion i arolwg gan 43 o sefydliadau. Cafodd deg o fudd-ddeiliaid o wahanol sectorau eu cyfweld, llwyddwyd i ddenu mwy na 1,000 o ddarllenwyr ar gyfer amrywiol erthyglau ar-lein a gwnaed cyflwyniadau ar themâu sy'n dod i'r amlwg i tua 200 o bobl. Efallai mai'r nifer fwyaf o gyfraniadau i'r sgwrs yn anochel oedd gan y trydydd sector ei hunan. Ond gyda 'lles' yn rhywbeth a gyflwynir gan y sectorau

cyhoeddus a phreifat hefyd, mae'n sgwrs y dylai bawb gymryd rhan ynndi.

Mae'r papur hwn yn crynhoi'r prif themâu a ddeilliodd o'r sgyrsiau hyn. Y nod yw symbylu meddwl a thrafodaeth bellach am ddyfodol 'gwneud lles', nid yn unig ymisiog elusennau a mentrau cymdeithasol ond o fewn y sectorau cyhoeddus a phreifat hefyd. Rydym yn ddiolchgar i bawb sydd wedi rhoi o'u hamser a'u safbwytiau i'r prosiect hwn, er mai safbwytiau'r awdur ei hunan sydd i'w canfod yn yr adroddiad hwn.

**Gobeithio y bydd hyn yn rhoi rhywbeth i chi feddwl amdano.**

## 2. Beth yw ‘gwneud lles’?

Mae ‘Gwneud lles’ yn ymadrodd a fabwysiadwyd gan y Gronfa Loteri Fawr i ddisgrifio creu ‘gwerth cymdeithasol’. Mae gwerth cymdeithasol yn golygu buddion cymdeithasol, amgylcheddol a diwydiannol ychwanegol a grëir gan weithgaredd, y tu hwnt i ddiben cynradd y gweithgaredd. Tra bod y rhan fwyaf yn gysylltiedig gydag elusennau, mentrau cymdeithasol a grwpiau cymunedol, gall pob math o sefydliad greu gwerth cymdeithasol neu ‘wneud lles’, gan gynnwys busnesau a chyrff cyhoeddus.

Yng Nghymru, y term a ddefnyddir amlaf am werth cymdeithasol a grëir gan gyrrf y sector cyhoeddus a phreifat, yn nodedig trwy eu gweithgareddau caffael, yw ‘budd cymunedol’. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi nifer o brif ddatganiadau polisi a chyfarwyddyd helaeth i sicrhau fod y sector cyhoeddus ‘yn cynyddu gwerth am y bunt Gymreig’, gyda'r Gweinidog Cyllid ar y pryd yn ei gwneud yn glir:

- ‘nad oedd mabwysiadu'r Datganiad Polisi yn ddewisol’.

Mae'r dull buddion cymunedol yn gallu cael ei sefydlu yng ngwaith bron pob corff cyhoeddus – er enghraifft, mae Cartref Cymunedol Cymru wedi canfod fod wyth allan o ddeg o landlordiaid cymdeithasol cofrestredig wedi cynnwys egwyddorion craidd dogennau eu sefydliad.

Mae'r syniad o werth cymdeithasol wedi cael ei estyn hefyd i'r sector preifat, gyda nifer cynyddol o fusnesau yn cynnwys buddion cymunedol o fewn eu modelau busnes. Mae rhai sefydliadau megis Busnes yn y Gymuned Cymru yn cynnig cefnogaeth i wneud hynny, trwy ddogfennau cyfarwyddyd.

### 2.1 Pa fath o ‘les’?

Gall ‘gwneud lles’ gynnwys nifer o wahanol fathau o fuddion. Ar gyfer y sector cyhoeddus, mae Llywodraeth Cymru yn pennu'r deilliannau y mae'n gofyn amdanyst o fewn cymalau buddion cymunedol o fewn dogennau caffael, sy'n:

- Fuddion recriwtio a hyfforddiant sydd wedi'u targedu
- Buddion y gadwyn cyflenwi
- Buddion addysg
- Buddion amgylcheddol
- Buddion cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Mae rhai wedi dadlau fod y rhestr hon yn rhy gul, er enghraifft, awgrymu y dylid cydnabod tlodi tanwydd fel budd cymunedol.

O fewn y sector preifat, mae'r dull yn fwy hyblyg. Er enghraifft, mae Busnes yn y Gymuned yn pwysleisio'r broses o gyflwyno budd cymunedol, gan gynnwys ymgysylltu, theorïau newid a mesur, yn hytrach na'r deilliannau. Mae'r Ffederasiwn Busnesau Bychain wedi dyfynnu nifer o ffyrdd y gall eu haelodau 'wneud lles', yn amrywio o bobl busnes yn bod yn ymddiriedolwyr neu aelodau pwylgor ar gyfer elusennau i fusnesau yn cyfrannu stoc sydd dros ben i achosion da - nid yw'n golygu gwaith caffael yn unig.

Mae nifer o syniadau gwahanol am yr hyn a olygir gyda 'lles' o fewn y trydydd sector hefyd. Mae Sonia Sodha yn cyfeirio at y ffaith fod nifer o elusennau yn gwneud 'lles' trwy drafod problemau cymdeithasol neu economaidd penodol tra bod gwneud 'lles' i eraill wedi'i wreiddio mewn ffydd benodol. Rydym wedi dod ar draws elusennau y bydd eu gweithgareddau yn amrywio o ddarparu gweithgareddau cymdeithasol i bobl o fewn cymuned benodol neu bobl ag anghenion penodol, i'r rheini sy'n ceisio datrys problemau sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn megis digartrefedd neu gamddefnyddio sylweddau. Mae ehanger y trydydd sector yng Nghymru yn gryfder ac yn her i sicrhau lles.

## 2.2 Pwy sy'n penderfynu?

Nid yw'r syniadau am yr hyn a olygir gan 'wneud lles' yn digwydd mewn gwagle. Mae yna brif yrwyr athronyddol a diwylliannol, ynghyd â dylanwadau mwy uniongyrchol sef hanes a thraddodiadau sefydliad, safbwytiau ei hymddiriedolwyr neu bwyllogor rheoli, profiadau eu defnyddwyr gwasanaeth a rôl yr arianwyr.

Roedd mwyafrif helaeth sefydliadau'r trydydd sector yr oeddem wedi ymgysylltu â hwy yn bendant eu bod hwy a hwythau yn unig wedi penderfynu ar eu diben, gyda'r mwyafrif yn hawlio i fod yn gwbl annibynnol o ddylanwadau allanol. Roedd mwyafrif o gyrrff y trydydd sector, yn enwedig grwpiau cymunedol a'r sawl sy'n gweithio gyda grwpiau penodol o bobl, wedi gwreiddio eu cenhadaeth a'u gwerthoedd ym mhrofiadau eu haelodau a/neu fuddiolwyr:

- Mae ein sefydliad wirioneddol yn annibynnol. Mae ei genhadaeth a'i weledigaeth wedi'i siapio gan ein hymddiriedolwyr, staff, gwirfoddolwyr a chleientiaid, mewn ffordd organig iawn, sydd wedi'i arwain gan ei fuddiolwyr.
- Rydym mor annibynnol ag y gall unrhyw un fod o bosibl. Ein cenhadaeth yw gwasanaethu'r gymuned yn gyfan gwbl.

Mae amrywiadau mawr yn y graddau y mae sefydliadau'r trydydd sector yn ymgysylltu gyda'u buddiolwyr. Er nad dyma oedd testun y prosiect hwn, rydym yn ymwybodol fod rhai

elusennau yn sefydlu cynnwys buddiolwyr o fewn eu cyfansoddiadau tra bo trefniant mwy lled braich gan sefydliadau eraill, gan ddefnyddio mechanweithiau gwahanol i gynnwys buddiolwyr e.e. trwy ymgynghori.

Roedd rhai pobl y buom yn eu cyfweld wedi cael eu hargyhoeddi llai mai sefydliadau'r trydydd sector eu hunain sy'n diffinio beth sy'n 'llesol' yn unig. Roedd sawl cyfrannwr o'r trydydd sector ynghyd â'r sectorau preifat a chyhoeddus yn cwestiynu a oedd rhai elusennau, yn enwedig y rheini a ariannwyd yn bennaf neu'n llwyr gan y llywodraeth, yn 'feistri ar eu tynged' eu hunain. Roedd rhai cyfranwyr hefyd yn cwestiynu rôl ymddiriedolaethau a sefydliadau nad oedd ynt wedi clywed amdanynt.

Mae cwestiynau am 'bwy sy'n penderfynu' beth sy'n 'llesol' a beth yw diben elusen yn allweddol, ac mae'r atebion yn llawer mwy cymhleth na rhaniad 'Ni yn erbyn Nhw'.

Rydym yn awgrymu y dylai holl gyrrff y trydydd sector fyfyrion rheolaidd ar eu diben a'u gwerthoedd craidd i fod yn glir am sut y mae 'llesol' yn edrych.

## 2.3 Effaith arianwyr

Mae nifer o bobl yn cydnabod fod dylanwad gan y sawl sy'n dal llinynnau'r pwrs dros ba 'les' a wneir, gyda'r llywodraeth yn cael dylanwad cryf yn enwedig yn ystod y blynnyddoedd diwethaf. Yng Nghymru, mae traen o incwm y trydydd sector yn dod o Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, awdurdodau lleol neu fyrrdau iechyd. Cyfrannodd Llywodraeth Cymru gyfanswm o £290 miliwn yn 2015-16 a chyfrannodd awdurdodau lleol £250 miliwn pellach.

Gall nawdd y wladwriaeth gael effaith uniongyrchol, er enghraifft, trwy ddynodi pa ddeilliannau y dylid eu cyflwyno, dynodi'r dulliau i'w defnyddio weithiau a thrwy osod amodau ar grantiau weithiau. Difynnodd un Prif Swyddog Gweithredol y rheol ariannu euraidd - 'pwy bynnag sydd â'r aur sy'n gwneud y rheol!' ac fe wnaeth Pwyllgor diweddar o fewn Cynulliad Cenedlaethol Cymru gwestiynu a oedd perygl fod y trydydd sector yn 'dod yn gangen arall o'r llywodraeth yn unig.'

Mae gan y wladwriaeth effaith anuniongyrchol hefyd, trwy siapio'r ddealltwriaeth o 'les', yn enwedig trwy 'fframio'r' problemau i'w trafod a ffafrio rhaid atebion dros eraill. Gellir gweld hyn yn glir yn y ffocws ar 'gyflogadwyedd' mewn blynnyddoedd diweddar, a'r pwyslais ar newidiadau mewn ymddygiad ac agweddu yn hytrach nag atebion posibl eraill megis creu swyddi. Dywedodd dau sefydliad eu bod yn teimlo iddynt gael eu 'gwthio' i gynyddu cyflogadwyedd fel ateb i broblemau defnyddwyr gwasanaeth er nad oeddynt yn teimlo mai dyma oedd yr ateb.

Fe wnaeth ein sgwrs ar y mater hwn arwain at ymateb bywiog a chymysg. Roedd nifer o fudd-ddeiliaid, yn enwedig y rheini o fewn y sector preifat, yn teimlo bod nawdd y wladwriaeth wedi cael dylanwad positif ar sefydliadau'r trydydd sector:

- Mae natur nawdd, gan gynnwys ei brif ffynonellau yng Nghymru ... yn bendant yn cael effaith ar annibyniaeth sefydliadau .... mae'n rhannol gyfrifol am nifer o sefydliadau'r trydydd sector nad 'ydynt yn sefyll ar eu traed eu hunain.'

Maent yn teimlo fod y ddibyniaeth ar nawdd y wladwriaeth yn effeithio ar barodrwydd sefydliadau'r trydydd sector i herio'r llywodraeth ynghyd â siapio'r hyn yr oedd elusennau yn ei wneud.

Roedd rhai o fewn y trydydd sector ei hunan yn rhannu'r pryderon hyn. Rydym yn 'gwneud yr hyn a ddywedir wrthym' yw'r ffordd y gwnaeth un ymatebwr i arolwg ddisgrifio effaith y nawdd tra y cafodd ei ddisgrifio fel 'gwyro o'n cenhadaeth - mission drift' gan rywun arall:

- Rydym yn ymdrechu i sicrhau ein bod yn cyflwyno yn erbyn ein gweledigaeth a'n nodau elusennol. Mae'n dod yn fwy fwy anodd i gyflwyno yn eu herbyn oherwydd y posibilrwydd o wyro o'n cenhadaeth - ymdrechu i gyfateb y gwasanaethau a gyflwynwn gyda gofynion ariannu

Fodd bynnag, nid oedd y mwyafrif helaeth o sefydliadau'r trydydd sector yn cytuno eu bod yn cael eu dylanwadu gan noddwyr. Pwysleisiwyd yn gadarn nad oedd mwyafrif sefydliadau'r trydydd sector yn ddibynnol ar nawdd y llywodraeth. Roedd incwm o £10,000 y flwyddyn neu lai gan bron bedair allan o ddeg o elusennau cofrestredig yng Nghymru, ac nid ydynt yn cyflogi staff ond yn gweithio gyda gwirfoddolwyr. Roedd y sefydliadau llai hyn yn teimlo bod ganddynt reolaeth lwyd ar eu tynged fel y mae'r dyfyniadau hyn yn eu darlunio:

- Rydym mor annibynnol ag y gallwn fod. Ein cenhadaeth yw gwasanaethu'r gymuned gyfan. (elusen gydag incwm sy'n is na £25,000)
- Grŵp cymunedol bychan a sefydlwyd yn ddiweddar ydym ni er mwyn diwallu anghenion pobl hŷn unig ac ynysig. Ein haelodau sy'n cytuno ar ein nodau, a'r rhain sy'n llywio'r weledigaeth. Oherwydd hyn, rydym yn credu ein bod wirioneddol yn annibynnol. (grŵp cymunedol gydag incwm sy'n is na £25,000)

O fewn sefydliadau canolig a mwy, roedd cydnabyddiaeth y gallai noddwyr chwarae rôl, er nad oedd hyn i'r graddau y gallai amharu ar werthoedd craidd y sefydliad:

- 'mae [ein cenhadaeth] wedi cael ei ddiwygio i ystyried pa un o'n gweithgareddau y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i'w hariannu ar ein cyfer'.
- 'mae ein noddwyr yn dylanwadu ar ein gweithredoedd ac ychydig o ffocws ein gwaith'.
- 'Rydym yn ymdrechu i sicrhau ein bod yn cyflwyno yn erbyn ein gweledigaeth a'n nodau elusennol. Mae'n dod yn fwy fwy anodd i gyflwyno yn eu herbyn oherwydd y posibilrwydd o wyro o'n cenhadaeth - ymdrechu i gyfateb y gwasanaethau a gyflwynwn gyda gofynion ariannu'

Roedd rhai yn gweld y berthynas rhwng cenhadaeth, gweledigaeth, gwerthoedd a nawdd fel un o 'ryng-ddibyniaeth' neu fel 'gweithred gyson o gydbwysol':

- Mae ein noddwyr yn dylanwadu ar ein gweithredoedd ac ychydig o ffocws ein gwaith. Mae perthnasoedd gwaith da yn ein helpu i wneud hyn yn broses ddwyffordd gynhyrchiol

Roedd nifer o elusennau yn fodlon gwrthod nawdd os oedd hyn yn amharu ar eu cenhadaeth neu werthoedd:

- Os nad yw'n cyd-fynd â'r weledigaeth, ni fyddwn yn ei wneud

Dyweddodd un cyfranogwr fod y boen tymor byr o wrthod nawdd yn werth y budd tymor hir i safle ac enw da'r sefydliad o fewn y gymuned, tra esboniodd sefydliad arall eu bod wedi colli contractau oherwydd nad oeddynt yn fodlon cyfaddawdu ar ansawdd y gwasanaethau a ddarparwyd ganddynt i'w buddiolwyr.

Mewn cyferbyniad â hyn, gwelwyd fod rhai noddwyr wedi cael effaith bositif iawn. Mewn cyfweliad, roedd un sefydliad wedi cael perthynas hir gyda sefydliad elusennol Prydeinig a oedd wedi cefnogi datblygiad y sefydliad ochr yn ochr â chyflwyno nawdd, er enghrafft trwy gynnig cyfleoedd dysgu mewn digwyddiad blynnyddol i dderbynwyr grantiau a thrwy gynnig cyngor a mentora. Roedd y noddwr wedi eu hannog i fod yn ddyfeisgar ac i arbrofi, sydd wedi bod yn arbennig o fuddiol i'r sefydliad. Pwysleisiodd budd-ddeilaidd arall fod gofynion y noddwyr fod rhai safonau sylfaenol o lywodraethu da yn cael eu diwallu yn gallu bod yn fuddiol hefyd.

Dylai'r mater o rôl ariannwyr wrth siapio'r hyn sy'n 'llesol' gael ei gydnabod a'i drafod yn fwy helaeth yn ein barn ni o fewn y trydydd sector ac yn ehangach. Mae'r syniad o 'elusen a ariennir gan y wladwriaeth' o bosibl yn erydu ymddiriedaeth a hyder mewn grwpiau gwirfoddol a chymunedol, a dylid mynd i'r afael â hyn.

## 2.4 Newid ffiniau

Fel y bydd y pwyslais ar greu gwerth cymdeithasol o fewn y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn datblygu, mae cwestiynau pwysig yn dod i'r amlwg o ran a yw'r gwahaniaeth confensiynol rhwng y trydydd sector a'r sectorau cyhoeddus a phreifat yn ystyrlon. Mae'r ffiniau a'r perthnasoedd sy'n newid rhwng y sectorau ar ei fwyaf llym wrth i'r wladwriaeth dynnu ei ddarpariaeth uniongyrchol i wasanaethau yn ôl gyda'r gwasanaethau'n cael eu rhoi ar gontact neu'r ddarpariaeth yn dod i ben yn llwyr. Fel y mae adroddiad y Gronfa Loteri Fawr yn ei nodi:

- 'beth sy'n gwahaniaethu'r sector cymdeithasol o'r sectorau preifat a chyhoeddus, sy'n cael eu gyrru'n aml gan eu gwerthoedd eu hunain - a oes yna wahaniaethwr clir? Beth sy'n gwneud elusen fawr sy'n cyflwyno gwasanaeth yn wahanol i gwmni'r sector preifat neu wasanaeth cyhoeddus: ai'r ffaith nad yw'n rhan o'r wladwriaeth ond ar yr un pryd ddim yn cael ei yrru gan elw fel cymhelliad?'<sup>8</sup>

Fe wnaeth y cwestiynau hyn symbylu ymateb bywiog o fewn yr holl fforymau. Awgrymodd sawl cyfrannwr fod y gwahaniaeth rhwng y trydydd sector ac eraill yn fwy fwy aneglur:

- Mae ein sefydliad yn gyfuniad o weithgaredd traddodiadol y trydydd sector a lefel cynyddol o weithgaredd y sector preifat.

I rai, roedd cymylu'r ffiniau yn cael ei groesawu, gyda 'masnacheiddio' sefydliadau'r trydydd sector yn cael ei ystyried i fod yn fuddiol, gan helpu i ddatblygu sgiliau newydd, gyrru dyfeisgarwch, a chreu ffynhonnell newydd o incwm:

- Mewn rhai ffurdd roedd yr ardal lwyd rhwng y sectorau yn fuddiol gan ei bod yn gwneud perthnasoedd [masnachol] yn fwy buddiol

Roedd y gwahaniaethau aneglur rhwng y sectorau yn creu mathau newydd o berthnasoedd - roedd elusennau a busnesau fel ei gilydd yn siarad am berthynas o symbiosis neu berthynas 'rhyng-ddibynnol',

gyda chyfleoedd newydd yn dod i'r amlwg a allai fod o fudd i bawb.

- Nid yw'r rhagdybiaeth fod un sector yn wael ac un arall yn dda neu'n well yn ddefnyddiol. Rydym yn cydweithio mwy mwy gyda'r sector cyhoeddus a phreifat ... mae yna gyfleoedd cydweithredu gwych sydd ar gael i elusennau sy'n wirioneddol barod i fod yn ddyfeisgar.
- Mae'r berthynas rhwng busnes a'r trydydd sector yn gallu bod o fudd i'r dda gan y gall sefydliadau'r trydydd sector helpu busnesau i ddeall eu heffaith gymdeithasol

Nid oedd holl sefydliadau'r trydydd sector yn gyfforddus gyda'r newidiadau hyn. Roedd nifer yn teimlo fod eu gwerthoedd neu ethos yn eu gwahaniaethu o sectorau eraill. Fe wnaeth un cyfrannwr grynhoi'r gwahaniaethau yn effeithiol:

- Mae ein cymhelliaid yn wahanol yn y bôn. Statudol = rydym yn ei wneud gan fod rhaid i ni. Preifat = rydym yn ei wneud i wneud arian. Gwirfoddol = rydym yn ei wneud gan ein bod ni eisbau.

Hawliwyd fod yr ethos gwahanol yn cyflwyno rhinweddau sy'n ddiffygol o fewn y sectorau eraill, megis hyblygrwydd, deall yr angen ac ymateb iddo, proses gyflymach o wneud penderfyniad a llai o gymhelliaid tuag at osgoi risg:

- Mae gennym fwy o ryddid i ymateb yn uniongyrchol i angen y cyhoedd. Gallwn fod yn hyblyg ac yn ddyfeisgar yn hytrach na chael ein clymu o fewn y broses fiwrocrataidd.
- Mae gennym fwy o gysylltiad a dealltwriaeth o broblemau llawr gwlad a brofir gan bobl. Rydym yn gallu ymateb yn gyflymach i anghenion sy'n newid. Nid oes gennym weithdrefnau mor feichus / trwsigl.

Roedd rhai yn amharod i ymgysylltu gyda'r sector preifat lle gwelwyd eu bod yn rhoi elw cyn angen:

- Rydym yma er budd ein haelodau ac felly nid ydym yn gwneud penderfyniad ar sail gwneud elw ... Rydym yn gwneud yr hyn a wnawn oherwydd ei fod yn cynnig manteision/buddion gwirioneddol i'r bobl yr ydym yn gweithio gyda hwy.

## 2.5 Prif negeseuon

Mae 'gwneud lles' neu greu gwerth cymdeithasol yn syniad allweddol pwysig sy'n berthnasol i sefydliadau ar draws y trydydd sector a'r sectorau cyhoeddus a phreifat, er bod yr iaith a ddefnyddir yn amrywio ac nid yw'n hawdd ei ddeall bob tro.

Mae nifer o ffyrdd gwahanol i ddiffinio beth yw 'lles' a hefyd nifer o wahanol ddylanwadau ar hyn. Mae canfyddiad, yn enwedig y tu allan i'r trydydd sector, fod gan y llywodraeth rôl arwyddocaol o fewn y sector. Fodd bynnag o fewn y trydydd sector ei hunan, nid yw mwyafrif helaeth y sefydliadau naill ai'n derbyn arian gan y llywodraeth nac yn cael eu dylanwadu gan y wladwriaeth, gan gael eu gwreiddio o fewn eu hatebolrwydd tuag at y bobl y byddant yn gweithio gyda hwy. I leiafrif o sefydliadau nad ydynt yn derbyn nawdd gan y llywodraeth, yr her yw cydbwyso eu cenhadaeth a'u gweledigaeth yn erbyn yr angen am nawdd, gyda bron pob un yn dynodi pwynt lle na fyddent yn cyfaddawdu ar eu hegwyddorion er mwyn chwilio am incwm. Gallai'r canfyddiad am ddiffyg annibyniaeth y sector fod yn niweidiol i ymddiriedaeth a hyder mewn elusennau, a dylid mynd i'r afael â hyn.

Mae'r ffiniau rhwng y sectorau yn gynyddol aneglur fel y bydd busnesau a chyrff y sector cyhoeddus yn ceisio ychwanegu gwerth cymdeithasol a sefydliadau'r trydydd sector yn cael eu masnacheiddio. Roedd rhai yn croesawu'r newidiadau hyn, gan weld cyfleoedd am ffyrdd newydd o weithio a gwahanol fathau o berthnasoedd. Roedd eraill yn cynnal bod gwahaniaethau sylfaenol mewn ethos rhwng y sectorau. Nid yw'r pwysau sy'n gyrru'r broses o wneud y ffiniau'n aneglur yn debygol o leihau, gan wneud hyn yn fater sydd angen ei archwilio a'i drafod ymhellach gan bawb dan sylw.

### 3. Sut i greu lles

Mae nifer o ffyrdd gwahanol y gellir creu 'lles' neu werth cymdeithasol. Un o'r rhai mwyaf cyffredin yw diwallu 'angen', er bod dulliau eraill megis cynyddu gallu unigolion neu newid y system. Cwestiwn allweddol yw sut mae sefydliad yn gwybod eu bod yn gwneud gwahaniaeth.

#### 3.1 Gwahanol ffyrdd o greu lles

Mae'r syniad o 'ddiwallu angen' wedi'i sefydliu'n ddwfn ym mhob sector a than yn ddiweddar, dyma fu'r dull mwyaf dominyddol o bell ffordd, er bod arwyddion diweddar o newid mewn pwyslais.

Roedd mwyafrif helaeth y sawl wnaeth ymateb i'r arolwg o fewn y trydydd sector yn gweld eu hunain fel bod yn diwallu anghenion trwy ddarparu gwasanaethau (o bob math). Mae sut mae sefydliadau yn pennu beth yw 'angen' felly yn allweddol. Mae rhai yn dibynnu ar ystadegau'r llywodraeth megis Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Mae nifer yn selio eu gweithgareddau ar adborth oddi wrth ddefnyddwyr gwasanaeth neu aelodau, gan ddefnyddio technegau megis arolygon cymunedol, ymgynghori gyda defnyddwyr gwasanaeth ac ymgysylltu gyda chwsmeriaid. Fe soniodd ychydig ohonynt am ddefnyddio dulliau megis timoedd gwerthuso mewnol ac atebolrwydd yn seiliedig ar ganlyniadau. I rai, fel y nodwyd yn gynharach, roedd diwallu angen wedi'i gynnwys o fewn eu cyfansoddiad, gyda buddiolwyr yn cael dweud eu dweud ar yr hyn mae'r sefydliad yn ei wneud:

- Grŵp cymunedol bychan a sefydlwyd yn ddiweddar ydym ni er mwyn diwallu anghenion pobl hŷn unig ac ynysig. Ein haelodau sy'n cytuno ar ein nodau, a'r rhain sy'n llywio'r weledigaeth. Oherwydd hyn, rydym yn credu ein bod wirioneddol yn annibynnol.

Mae rhai o sefydliadau'r trydydd sector yn credu bod eu dealltwriaeth o'r bobl y byddant yn gweithio gyda hwy neu'r atebolrwydd sydd wedi'i gynnwys o fewn eu trefniadau llywodraethu yn rhoi golwg unigryw iddynt ar anghenion y bobl hynny ac yn rhoi'r hawl iddynt gynrychioli eu barn. Mae lleisiau'r

sefydliadau hyn yn allweddol bwysig ac yn helpu i sicrhau fod safbwytiau pobl sydd weithiau'n cael eu hymyleiddio yn cael eu clywed.

Roedd rhai budd-ddeiliaid yn amau pa mor dda mae rhai elusennau wirioneddol yn gwybod anghenion eu defnyddwyr gwasanaeth neu eu bod yn cynrychioli cymdeithas sifil ehangach:

- mae atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth yn [ymddangos] i fod yn fwy anghyson ac yn dibynnu ar capaciti/gallu o fewn sefydliad

Gyda hygrededd yr elusennau ynghyd â mynediad at lawer o nawdd yn dibynnu ar eu dealltwriaeth o 'angen', mae'n ymddangos yn rhesymol i ddisgwyl i sefydliadau'r trydydd sector i allu arddangos y gallant wneud hynny'n effeithiol, gan wrando ar bobl ynghyd â thrin a thrafod ystadegau.

Mae'r syniad o 'angen' wedi'i drwytho mewn sawl rhan o'r sector cyhoeddus hefyd. Trefnir nifer o wasanaethau cyhoeddus ynghylch y syniad o ddeall anghenion a dyheadau'r gymuned, gyda strwythurau, megis byrddau gwasanaeth lleol, dulliau, megis ymgysylltu ac ymgynghori, a phrosesau cynllunio wedi'u bwriadu i'w diwallu yn effeithiol. Esboniodd un budd-ddeiliaid fod y pwyslais diweddar ar waith atal, er enghraifft profiadau andwyol yn ystod plentyndod, yn newid sut mae awdurdodau lleol ac eraill yn meddwl am eu gweithgareddau ac yn eu cynllunio.

Tra bo'r iaith yn wahanol o fewn y sector preifat, gallai busnes nad oedd yn diwallu'r hyn yr oedd y cwsmer ei angen fod allan o fusnes yn fuan.

Er mor bwysig yw diwallu 'angen', mae nifer o bobl, fodd bynnag, yn cydnabod fod yna rai peryglon posibl. Dywedodd rhai bod ffocws ar

anghenion weithiau yn pwysleisio gwendidau pobl yn hytrach na'u cryfderau. Fe wnaeth nifer o gyfranwyr sylwadau fod yr iaith yn llwythog, gan ddweud fod termau megis 'defnyddwyr gwasanaeth' neu 'fuddiolwr' yn rhy oddefol.

- 'mae iaith yn gosod y tōn ar gyfer gwaith ymyrraeth, felly os yw pobl yn cael eu gweld fel problem yn hytrach na'r ateb, yna ni fydd dim yn newid.'
- 'Nid ydym yn newid bywydau pobl, dim ond pobl all newid eu bywydau eu hunain.'

Nid yw'r syniad o 'angen' yn niwtral. Er enghraifft, dywedodd un cyfrannwr fod anghenion megis masnachu pobl, tlodi ac amddfadedd yn 'cael eu brwsio o dan y carped' yn eu hardal hwy gan eu bod yn credu nad oedd awdurdodau lleol eisiau difrodi'r ddelwedd o 'iwtopia' lleol.

Dim ond un ffordd y gall sefydliadau wneud 'lles' yw diwallu anghenion. Dull ychydig yn wahanol yw 'meithrin capaciti/gallu', lle rhoddir y pwyslais ar gynyddu gallu pobl i reoli a newid eu bywydau eu hunain yn hytrach na gwella eu diffygion.

Esboniodd tri sefydliad yr ydym wedi ymgysylltu gyda hwy eu bod wedi ystyried theorïau newid yn ofalus yn seiliedig ar y model hwn. Roeddynt yn dadlau fod eu dull yn adlewyrchu eu profiad dwfn o weithio gyda phobl a effeithir gan broblem, ac roeddynt yn dweud fod ganddynt dystiolaeth gadarn fod eu ffyrdd o weithio yn effeithiol.

Roedd un o'r sefydliadau hynny yn profi anawsterau wrth dendro i gyflwyno gwasanaethau. Roeddynt yn dweud fod manylion y contract yn aml yn seiliedig ar ffafriaeth y client i gyflawni deilliannau tymor byr oedd yn diwallu anghenion di-oed yn hytrach na model yr elusen o gynyddu gallu unigolion i wella eu bywydau. Roedd yr elusen yn cadw at eu dewis o ddulliau am y tro, ond amser a ddengys os y gall barhau i wneud hyn yn y dyfodol.

Roedd sefydliadau sy'n canolbwytio ar 'newid system' hyd yn oed llai cyffredin. Fe wnaeth nifer o gyfranogwyr wneud sylwadau fod yr her i feddylfryd neu bolisiāu'r llywodraeth

yn amhoblogaidd, gyda rhai sefydliadau yn ofni herio a siarad yn erbyn meddylfryd confensiynol. Pwysleisiodd un cyfrannwr fod y diffyg her yn creu problemau ehangach. Mewn mannau eraill yn y DU, cydnabyddir fod her yn rhan allweddol o'r broses o fireinio deddfwriaeth neu bolisiāu, eto yng Nghymru - gyda deddfwriaeth cymharol ifanc a bychan lle y gallai her fod yn ddefnyddiol - nid oedd hyn yn cael ei groesawu.

### 3.2 Mesur Effaith

Mater allweddol i sefydliadau o bob math yw sut y maent yn arddangos eu bod yn gwneud gwahaniaeth i'w hunain ac i eraill.

Mae mesur gwerth cymdeithasol yn llawer mwy anodd na mesur perfformiad ariannol. Cyfeiriodd rhai cyfranwyr at y 'lles' a achoswyd gan sefydliadau'r trydydd sector fel y 'cynhwysyn hud' neu 'lwch tylwyth teg' a oedd yn trawsnewid gweithgareddau daearol/ diflas yn fuddion cymdeithasol go iawn, er bod bron y cyfan yn ceisio dod o hyd i ffyrdd o ddal neu sicrhau'r briodwedd amwys hon.

Roedd sefydliadau o bob math a chyrff ar draws y sectorau yn cydnabod fod sicrhau gwerth cymdeithasol neu fuddion cymunedol yn gallu bod yn anodd. Cwynodd sefydliadau'r trydydd sector am ddull 'ticio blwch' nad oedd yn sicrhau gwerth ychwanegol. Fel y dywedodd un unigolyn:

- '[trydym] wedi mesur ar bopeth ond nid yw'n cyfleo'r hyn a wnawn'.

Dywedodd grŵp cymunedol bychan oedd yn darparu gweithgareddau cymdeithasol i bobl gyda chyflwr niwrolegol mai'r mesur gorau o lwyddiant oedd chwerthin ond bod mesur chwerthin yn amhosibl. Dywedodd un arall:

- 'Pan fyddwch yn ei fesur, bydd y balŵn yn mynd i lawr!'

Dywedodd rhai budd-ddeiliaid fod sefydliadau'r trydydd sector weithiau yn gor-honni eu heffaith, nid yn lleiaf oherwydd ei fod wedi'u helpu i sicrhau nawdd. Roedd rhai yn wynebu'r sefyllfa lle'r oedd rhaid iddynt gael eu gweld i fod yn gwneud gwahaniaeth neu ni fyddent fel arall yn ennill cefnogaeth oddi wrth noddwyr neu ariannwyr eraill, er bo'r problemau yr oeddynt yn ymdrechu i'w datrys yn arbennig o anodd.

Mae anhawster wrth sicrhau gwerth cymdeithasol yn amlwg i'w weld o fewn y sector cyhoeddus. Esboniodd un budd-ddeiliaid fod awdurdodau lleol yn cael trafferth gyda'r newid mewn ffocws o allbynnau i ddeilliannau, ac y gellir adlewyrchu eu hanawsterau yn y modd y maent yn monitro nawdd a ddyrennir i sefydliadau'r trydydd sector. Yn yr un modd, fe wnaeth arolwg o landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru ganfod fod rhai yn teimlo bod:

- 'nid yw mesur gwerth/effaith gymdeithasol o anghenraid yn help ... wrth egluro'r gwahaniaeth gwirioneddol a wnaed<sup>9</sup>

Awgrymodd prif weithredwr un o sefydliadau'r trydydd sector y dylai sefydliad ddatblygu a defnyddio eu systemau eu hunain os nad yw'r technegau mesur safonol yn addas. Nid oedd hyn yn anghyffredin o fewn y sectorau preifat a chyhoeddus lle bo mwy o adnoddau yn amlwg iawn. Nid oes angen i'r systemau hyn olygu methodolegau enfawr na chymhleth - gallant fod mor syml â dysgu am storïau'r sawl sy'n cymryd rhan neu ddefnyddio ffordograffau neu gyfryngau gweledol eraill. Rydym hefyd wedi dynodi un elusen sydd wedi gweithio gyda phrifysgol lleol i gynhyrchu chwe phrif ddeilliant y gallant eu defnyddio i olrhain y newidiadau y maent wedi'u cyflawni.

### 3.3 Gwerthuso a gwella

Un o'r prif fanteision mesur yw y gall sefydliadau ddysgu a gwella wedi hynny. Roedd y rhan fwyaf o sefydliadau yn cydnabod y gallent ddysgu o fethiannau yn ogystal â llwyddiant. Dywedodd un y byddai rhai cyfranwyr yn amharod i rannu storïau oedd yn 'dangos eu llwyddiannau a'u ffaeleddau'n llawn' i noddwyr neu i fod yn agored am anawsterau gyda chyfoedion oni bai y byddent yn siŵr na fyddai ôl-effeithiau.

Mae agwedd sefydliadau tuag at beryglon yn tanategu'r gallu i ddysgu a bod yn ddyfeisgar.

- 'os na fyddwch yn cymryd risgiau, fe fyddwch yn farwaidd eich agwedd'

Awgrymodd un o'r budd-ddeiliaid fod nawdd allanol yn dueddol o gloi sefydliadau'r trydydd sector i mewn i atebion penodol, hyd yn oed os nad ydynt bellach yn effeithiol yn hytrach

na chaniatáu iddynt ddatblygu i ddiwallu'r allbynnau a'r deilliannau sy'n ddymunol. Nid yn unig fod hyn yn arwain at gyfyngu ar ddyfeisgarwch ond roedd yn lleihau sgiliau staff ac ymddiriedolwyr a oedd yn 'dod i arfer cael cyfarwyddiadau ar beth i'w wneud a sut i'w gyflawni'.

Mae mesur gwerth cymdeithasol yn bwysig gan mai dyma yw'r sail yn aml ar gyfer cydnabyddiaeth a gwobrwyon. Yn wir, y perygl yw os na chaiff 'lles' ei ddiffinio, ei fesur a'i werthfawrogi, yna ni chaiff ei ariannu. Caiff ei weld fel moethusrwydd yn hytrach na phrif ddiben gweithgaredd.

### 3.4 Y wasgfa fawr

Mae gostyngiadau sylweddol wedi bod yng ngwariant y cyhoedd yng Nghymru. Bu gostyngiad o 8 y cant mewn termau real yng nghyfanswm gwariant Llywodraeth Cymru rhwng 2009/10 a 2017/19, a gyda gostyngiadau pellach yn cael eu rhagweld rhwng 2017-18 a 2021-22. Mae'r effaith wedi bod fwyaf ar awdurdodau lleol, gyda gostyngiad o 14 y cant rhwng 2009/10 a 2015/16.

Disgrifiodd nifer o sefydliadau'r trydydd sector sut yr oedd rhai gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu contractio allan gyda manylebau tynn iawn a phwysau ar gostau. O ganlyniad, roeddent yn teimlo bod y 'gwerth cymdeithasol' a gynhyrchwyd gan eu gweithgareddau dan bwysau; roedd gwasanaethau naill ai wedi'u dylunio ar y sail fod 'un maint yn gweddu i bawb' gyda phris yn hytrach na deilliant yn brif faen prawf ar gyfer dewis. Dywedodd un cyfrannwr:

- Cafodd gofal cymdeithasol ei dendro fel ei fod yn fin ysbwriel

Cafodd hyn ei ddarlunio'n glir gan ddau sefydliad y buom yn siarad gyda hwy. Esboniodd un bod contract i ddarparu gwasanaethau cefnogi i bobl anabl ddim yn caniatáu dilyniant mewn gofal gan unigolion enwebedig gan ei fod yn costio mwy. Gan fod manteision dilyniant a pherthnasoedd personol ddim yn cael eu cydnabod, roedd rhai yn teimlo nad oedd y gwasanaethau bellach yn diwallu anghenion penodol unigolion, gan arwain yn uniongyrchol at

gleientiaid yn colli ymddiriedaeth a'r perygl o  
gleientiaid yn cael eu hymddieithrio yn llwyr.

Disgrifiodd sefydliad arall sut mae prisiau awdurdodau lleol ar gyfer y gwasanaeth a ddarperir ganddo yn 20-30% yn is na'r costau, gan eu bod yn cynnig cefnogaeth arbenigol, sydd wedi'i phersonoli i bobl y byddant yn gweithio gyda hwy yn hytrach na 'phecyn safonol' o gefnogaeth. Mae'r sefydliad yn wynebu'r dewisiadau o dorri'r gwasanaethau arbenigol, sy'n cyfaddawdu eu hegwyddorion ac ethos sylfaenol; cerdded ymaith oddi wrth y tendr yn llwyr, sy'n gadael eu defnyddwyr gwasanaeth heb gefnogaeth; neu lenwi'r bwlch gyda chronfeydd a godir yn rhywle arall gan gynnwys apeliadau cyhoeddus.

Dyweddodd nifer o sylwebwyr fod y sawl sy'n caffael gwasanaeth yn tybio'n symfod y trydydd sector yn rhatach nag eraill, er enghraift oherwydd eu bod yn defnyddio gwirfoddolwyr. Yn wir, gallai darparwr y trydydd sector fod yn ddrytach wrth gynnig gwasanaeth o ansawdd uchel, diffyg darbodion maint a chostau cyffredinol uwch sydd ynghlwm â hyn, er enghraift, mwy o atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth.

Fe wnaeth nifer o gyfranogwyr sylwadau fod elusennau, grwpiau cymunedol a mentrau cymdeithasol yn colli'r hyn sy'n eu gwneud yn unigryw unwaith y bydd y gwerth a ychwanegir gan sefydliadau'r trydydd sector yn cael ei golli.

### 3.5 Prif negeseuon

Mae nifer o ffyrdd gwahanol y gall sefydliadau greu 'lles' neu werth cymdeithasol. Yn bennaf oll, mae gwerth cymdeithasol yn cael ei greu o fewn y sectorau preifat a chymdeithasol ynghyd â'r trydydd sector, er nad oes llawer o fewn y trydydd sector yn cydnabod hyn.

Mae 'diwallu angen' yn ddull dominyddol ar draws sectorau, er bod nifer cynyddol o sefydliadau o fewn y sectorau preifat a chyhoeddus yn datblygu dewisiadau eraill yn seiliedig ar feithrin gallu a gwaith atal. Nid yw hyn yn cyd-fynd yn dda bob tro gyda dull sy'n seiliedig ar anghenion.

Gall sefydliadau'r trydydd sector roi llais i grwpiau o bobl sy'n cael eu hymyleiddio yn aml. Weithiau gallai sefydliadau'r trydydd sector a'r sector cyhoeddus ymgysylltu yn well i sicrhau fod eu llais yn cael ei glywed.

Mae mesur effaith yn her o fewn pob sector hefyd, gyda rhai sefydliadau yn troi'n ddiofyn at restrau cul o ddeilliannau neu honiadau amwys am yr 'hud' wrth wynebu anawsterau. Nid yw hyn yn disodli'r angen am waith caled wrth ddatblygu mesurau priodol.

Mae'r cyfuniad o bwysau ar wariant cyhoeddus a'r anawsterau wrth sicrhau gwerth cymdeithasol yn peryglu'r ymdrech i sicrhau 'lles' o fewn rhai gweithgareddau. Weithiau mae camddealltwriaeth am sut y mae gwahanol fathau o sefydliadau yn gweithredu, gyda sefydliadau'r trydydd sector yn wynebu materion ariannol ynghyd â rhai moesegol o ganlyniad i hynny.

# 4. Nawdd

Heb fod yn syndod o gwbl, nawdd oedd un o'r prif themâu a ddaeth i'r amlwg wrth siapio sut y mae sefydliadau yn 'gwneud lles', Mae'r materion hyn yn canolbwytio ar faint o nawdd sydd ar gael a'r ffordd y caiff ei ddyrannu.

## 4.1 Toriadau mewn gwariant cyhoeddus

Mae gwariant cyhoeddus yng Nghymru yn crebachu. Fel y nodwyd yn gynharach, cafwyd gostyngiad o 8 y cant mewn termau real yng ngwariant Llywodraeth Cymru rhwng 2009/10 a 2017/18, Fodd bynnag, mae cyfanswm gwariant y trydydd sector wedi gostwng gan fwy na dwywaith y gyfradd - gostyngiad o 17.3% neu £60.6 miliwn rhwng 2010/11 a 2014/15.<sup>11</sup>

Yn ein trafodaethau, dywedodd rhai o'r sefydliadau'r trydydd sector eu bod yn ymateb i'r heriau trwy gwtogi gwasanaethau neu eu cau yn llwyr. Roedd nifer sylweddol yn gweld y tueddiad hwn yn parhau, gyda thoriadau yn nawdd y llywodraeth a chynnydd mewn cystadleuaeth ar gyfer cronfeydd eraill yn bygwth eu bodolaeth. Cafodd yr anawsterau hyn eu gwneud yn waeth gan fod awdurdodau lleol, fel yr awgrymwyd gan rai, yn blaenoriaethu gweithgareddau mewnol dros y rheini a ddarperir gan y trydydd sector.

- Rydym eisoes yn wynebu cau un gwasanaeth hanfodol eleni oherwydd diffyg nawdd sydd i ddod yn ei le [trwy grant awdurdod lleol]. Bydd yr un peth yn wir am un os nad dau o wasanaethau eraill erbyn diwedd 2020.
- Rydym wirioneddol yn cael trafferth gyda chyllid ... nid yw contractau yn cael eu cynnig i ni gan yr awdurdod lleol gan eu bod yn ceisio cadw eu gwasanaethau eu hunain yn fyw trwy roi contractau ar gyfer gofal plant i ysgolion (lle nad yw'r ansawdd yn aml mor dda)... Efallai na fyddwn yma yn 2020.

Roedd nifer o fudd-ddeiliaid o fewn y sector preifat yn teimlo y gallai'r trydydd sector ymateb i sialensiau ariannu yn fwy effeithiol, er enghraift datblygu ffyrdd clyfrach o weithio neu feddwl mewn ffordd fwy masnachol.

- Mae arallgyfeirio nawdd yn ffordd o sicrhau fod y sefydliad yn gallu parhau i ganolbwytio ar ei brif nodau gan sicrhau annibyniaeth

Awgrymodd nifer o gyfranwyr y sector preifat fod y trydydd sector angen rhagor o sgiliau, arbenigedd a'r gallu i fasnacheiddio yn effeithiol, gan wneud sylwadau fod meithrin perthnasoedd gyda busnesau yn rhywbeth y gallai sefydliadau ei ystyried.

## 4.2 Contractau

Mae rhai rhannau o'r sector cyhoeddus wedi edrych i reoli'r pwysau y maent yn eu hwynebu trwy newid o nawdd grant i contractau. Mae gwerth contractau Llywodraeth Cymru i'r trydydd sector wedi cynyddu o £43.7 miliwn yn 2012/13 i £71.45 miliwn yn 2014/15, gyda thueddiadau tebyg ar fynd o fewn llywodraeth leol, ac i raddau llai, o fewn y sector iechyd.

